**LC580**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi ardaloedd gwledig at ddibenion adran 157(1) Deddf Tai 1985 ac adran 17(1) Deddf Tai 1996. Golyga hynny y gellid gosod cyfyngiadau ar werthu anheddau a brynir mewn "ardaloedd gwledig" o dan ddarpariaethau “hawl i brynu” Deddf 1985 ac na fydd anheddau mewn "ardaloedd gwledig" yn gymwys i'w caffael o dan ddarpariaethau "hawl i gaffael" Deddf 1996. Mae "rhanbarthau" hefyd wedi'u dynodi at ddibenion adran 157(3) Deddf 1985. Dyma'r ardal y mae'n rhaid i ddarpar brynwyr fyw neu weithio ynddi lle prynir anheddau o dan yr "hawl i brynu" yn amodol ar gyfyngiadau ar eu gwerthu.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae gwall drafftio yn ôl pob golwg yn erthygl 4(2) a gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig iddo.

Ymddengys y dylai'r cyfeiriad at "adran 19 o Ddeddf 1980" gyfeirio at "adran 157(3) o Ddeddf Tai 1985".

Mae'r un peth yn codi yn y testun Saesneg.

Bydd modd cywiro hyn drwy femorandwm cywiriadau.

**Sylwadau**

**Rhagarweiniad**

Dylai'r troednodiadau nodi sut y mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u breinio yn y Cynulliad.

**Troednodiadau**

Nid yw'r troednodiadau y sonnir amdanynt yn erthygl 5 ac yn y ddarpariaeth ardystio wedi'u cynnwys wrth droed y dudalen.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

3 Rhagfyr 2002